# TREFNU CYMUNEDOL



UNDEB ABERYSTWYTH



Dod â phobl sy'n rhannu buddiannau neu bryderon cyffredin at ei gilydd i weithredu ar y cyd a chreu newid cadarnhaol yn eu cymuned yw Trefnu Cymunedol. Mae hyn yn cynnwys meithrin cysylltiadau, adnabod amcanion cyffredin a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â materion megis tai, addysg, iechyd neu gyfiawnder cymdeithasol. Galluogi aelodau'r gymuned i fod â llais cryfach a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu bywydau yw'r nod.

Dyma'r nod sydd gennym

## blaidd unig




Gweithio ar eu pen eu hun - gwaith polisi a chyfarfodydd

## ysgogwyr



Trefnu protestiadau a gorymdeithiau

## Trefnwyr



Meithrin rhwydweithiau a dyrannu gwaith

# Rheol gadarn drefnu cymunedol: Peidiwch â gwneud dros eraill yr hyn y gallent wneud drostynt eu hunain.







## Rydyn ni'n magu nerth trwy berthnasoedd

Gellir meithrin perthnasoedd trwy fuddiannau cyffredin

nerth = y gallu i wneud newid

Cawn ddysgu am fuddiannau cyffredin rhywun trwy sgwrsio un ag un.



# 1-2-1'S

## SUT MAE'N GWEITHIO?

Mae siarad un ag un yn sgwrs fwriadol ac agos-atoch rhwng dau, gan amlaf rhwng trefnydd ac aelod o'r gymuned. Nid sgwrs ddidaro yw hon ond cyfarfod pwrpasol â'r bwriad o fagu perthynas, deall beth sydd o bwys i rywun, a thrafod sut y hoffent weithredu.

BYDD FEL ARFER YN CYMRYD 30-45 MUNUD, A GYNHELIR WYNEB YN WYNEB NEU AR-LEIN (OND WYNEB YN WYNEB)

GWRANDO YN FWY NA SIARAD FYDD Y TREFNYDD

MAE'N RHOI SYLW I WERTHOEDD, PROFIADAU A CHYMHELLIANT YR UNIGOLYN

THE ORGANISER ASKS OPEN QUESTIONS LIKE:
"WHAT BROUGHT YOU TO THIS COMMUNITY?"
"WHAT CHALLENGES ARE YOU FACING?"
"WHAT KEEPS YOU UP AT NIGHT?"
"HAVE YOU EVER TAKEN ACTION ON SOMETHING YOU CARE

# PAM FOD SIARAD UN AG UN O BWYS I DREFNU CYMUNEDOL?

## AM EU BOD YN MEITHRIN YMDDIRIEDAETH

MAE NEWID YN DIGWYDD TRWY BERTHNASOEDD, NID TRWY SYNIADAU NEU BROTESTIO YN UNIG

## MAE'N DOD Â'R MATERION GO IAWN I'R WYNEB

MAE GWRANDO'N ASTUD O FUDD I DREFNWYR ADNABOD PATRYMAU YN YR HYN SY'N PERI PROBLEMAU I BOBL

## MAE'N GYFLE I DDATBLYGU FEL ARWEINYDD

NI FYDD POBL DDIM YN EU HYSTYRIED EU HUN YN ARWEINYDD NES BOD RHYWUN YN GWRANDO AR EU HANES A CHYNNIG IDDYNT CAMU I'R ADWY

## MAE'N CREU YMRWYMIAD

MAE GWAHODDIAD PERSONOL YN DRECH NA PHAMFFLED NEU E-BOST MAWR

# CYFARFOD TŶ

## SUT MAE'N GWEITHIO

Cyfarfod bach anffurfiol ei naws lle mae pobl yn hel ynghyd i rannu profiadau, trafod materion cyffredin a dechrau gweithredu ar y cyd yw cyfarfod tŷ.

Nid darlith na chyfarfod ffurfiol mohono. Hwyrach ei fod yn fath o sgwrs dan arweiniad sy'n dod â phobl at ei gilydd i wrando, cysylltu, a hel nerth ynghylch buddiannau ar y cyd.

### Sut mae cyfarfod tŷ yn gweithio

- Fel arfer, rhyw 6–12 fydd yn dod ynghyd fel y caiff pawb gyfle i siarad.
- Bydd yn parhau tua 60–90 munud
- Caiff ei gynnal gan aelod dibynadwy o'r gymuned



## Mae'r cyfarfodydd yn dilyn y drefn isod:

**01** Croesawu a Phwrpas - pam ein bod yma

**02** Rhannu straeon - cyfle i'r cyfranogwyr drafod eu profiadau eu hunain gyda'r mater dan sylw.


**03** Adnabod patrymau – beth yw'r themâu neu y brwydrau cyffredin sy'n dod i'r amlwg.

**04** Pwy arall ddylem ni ei gynnwys

**05** Gwahoddiad i weithredu – gofynnir i'r cyfranogwyr ymrwymo i'r cam nesaf, ee ymuno ag ymgyrch, cyfarfod â rhywun sy'n gwneud penderfyniadau neu gynnal cyfarfod arall

# FFIGWR FFON

Mae defnyddio ffigwr ffon yn ffordd hawdd o gael cefnogaeth tra'n siarad un i un os ydych chi'n teimlo ychydig ar goll gyda'r hyn i'w ofyn. Mae'r ffigwr ffon yn helpu trefnwyr i roi darlun cyflawn o'r unigolyn y maent yn siarad â nhw at ei gilydd. Gall droi sgwrs syml yn ddull grymus o feithrin cysylltiad a datblygu arweiniad.



# ENGHREIFFTIAU MEWN HANES




UNDEB ABERYSTWYTH

# Mudiad y Syffrajetiaid

Roedd trefnu cymunedol yn hollbwysig i lwyddiant Mudiad y Syffrajetiaid. Daeth menywod o wahanol gefndiroedd at ei gilydd i herio deddfau a wrthodai'r hawl i bleidleisio iddynt. Aethant ati i feithrin rhwydweithiau cryf trwy gyfarfodydd, ralïau a grwpiau menywod lleol. Roedd yr ymdrechion hyn ar lawr gwlad o fudd iddynt wrth ddysgu'r cyhoedd, codi arian, a chydlynu protestio ac ymgyrchu ar draws y wlad.



Buodd trefnwyr megis Emmeline Pankhurst ac Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Menywod yn hyfforddi menywod i fod yn arweinwyr, siarad yn gyhoeddus, a herio sefydliadau gwleidyddol. Buont yn defnyddio deisebau, gorymdeithiau, a gweithredu anufudd-dod sifil i gadw pwysau ar y llywodraeth. Trwy'r gweithredu ar y cyd a'r strategaeth dan arweiniad y gymuned hyn, llwyddodd y mudiad i ennyn sylw cenedlaethol gan ennill yr hawl i fenywod bleidleisio.




ENGHREIFFTIAU
MEWN HANES

# Rosa Parks a Threfnu Cymunedol yn y Mudiad Hawliau Sifil



Cofir Rosa Parks gan amlaf am wrthod rhoi ei sedd i deithiwr gwyn ar fws ym Montgomery, Alabama, ym 1955. Er i'w herio ymddangos yn syml, roedd yn gysylltiedig yn ddwfn â blynyddoedd o drefnu cymunedol. Nid oedd Parks yn gweithredu ar ei phen ei hun - buodd hi'n aelod o'r NAACP (Cymdeithas Genedlaethol Er Hyrwyddo Pobl o Liw) ers amser maith ac roedd hi wedi gweithio ar faterion yn ymwneud â hawliau sifil ymhell cyn ei harestio.

Roedd gwrthod ildio ei sedd yn weithrediad bwriadol a gefnogwyd gan ymgyrchwyr hawliau sifil lleol a oedd wedi bod yn paratoi ar gyfer cyfle i herio gwahanu bws. Ar ôl ei harestio, buan y daeth arweinwyr a threfnwyr du at ei gilydd i lansio yr Ymgyrch Boicotio Bysus Montgomery. Ffurfiwyd Cymdeithas Hyrwyddo Montgomery ganddynt, a arweiniwyd gan Martin Luther King Jr, a drefnid lifftiau car, ralïau, a chyfarfodydd i barhau â'r boicot fynd dros flwyddyn.

Trwy'r ymdrech dorfol hon ar lawr gwlad, dangosodd aelodau o'r gymuned ddu eu nerth ar y cyd. Ffrwyth eu hundod a'u penderfyniad oedd dyfarniad gan y Goruchaf Lys a roddodd derfyn ar wahanu ar fysus cyhoeddus. Roedd y fuddugoliaeth hon yn galondid i ymgyrchwyr hawliau sifil eraill a dangosodd sut y gallai trefnu cymunedol ysgogi newid go iawn.

Yn fras, yn gefn i weithred ddewr Rosa Parks roedd mudiad trefnus iawn, a sbardunodd enghraifft bwerus o sut y gall trefnu cymunedol gyflawni cyfiawnder a hawliau cyfartal i bobl ddu yn America.

**ENGHREIFFTIAU**
**MEWN HANES**

# Trefnu Cymunedol a Mudiad y Gymraeg yng Nghymru




Yn yr 20fed ganrif, roedd y Gymraeg yn wynebu dirywiad enbyd Y Saesneg oedd drechaf mewn ysgolion, gweithleoedd, a bywyd cyhoeddus, ac roedd llawer yn poeni bod y Gymraeg ar dranc. Yn ymateb i hyn, aeth pobl ar draws Cymru ati i dynnu ar drefnu cymunedol at amddiffyn a hyrwyddo eu hiaith a'u diwylliant.

Chwaraeodd grwpiau torfol fel Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, a sefydlwyd ym 1962, ran hollbwysig. Daethant â phobl o Gymru benbaladr ynghyd i ymgyrchu dros hawliau cyfartal i siaradwyr Cymraeg. Buont yn trefnu protestiadau heddychlon, meddiannu, a gweithredu uniongyrchol - ee paentio dros arwyddion uniaith Saesneg a mynnu arwyddion ffordd dwyieithog. Codwyd ymwybyddiaeth gan y gweithredu hyn a rhoddwyd pwysau ar y llywodraeth.

Sefydlodd aelodau o'r gymuned grwpiau chwarae, ysgolion, a digwyddiadau Cymraeg eu hiaith, lle dathlwyd cerddoriaeth a barddoniaeth yn y Gymraeg. Helpodd yr ymdrechion gyflwyno cyfreithiau i gefnogi'r iaith, gan gynnwys Deddf y Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011, a roddodd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.

Diolch i ddegawdau o drefnu ar lawr gwlad, mae'r Gymraeg wedi gweld adfywiad. Caiff ei dysgu'n eang mewn ysgolion, ei defnyddio yn y cyfryngau a mewn gwasanaethau cyhoeddus, a'i siarad gyda balchder gan genedlaethau newydd.

ENGHREIFFTIAU
MEWN HANES